# Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-Y-Bont Ar Ogwr

## Amodau Trwydded Cerbyd Llogi Preifat

Bydd y perchennog yn glynu wrth ac yn cyflawni'r telerau ac amodau canlynol o ran Trwyddedau Cerbydau Hurio Preifat.

1. Ni ddylai'r cerbyd fod yn wyn o ran lliw.

2. Bydd plât y drwydded yn cael ei osod a'i arddangos ar du allan cefn y cerbyd yn uniongyrchol ar neu'n union uwchben y bympar yn y fath fodd fel nad yw marc cofrestru'r cerbyd wedi'i guddio, gyda'r manylion yn wynebu tuag allan yn y fath fodd a lleoliad fel bod plât y drwydded i'w weld yn glir mewn golau dydd o'r ffordd tu ôl i gefn y cerbyd.

3. Bydd arwyddion gludiog, a ddarperir gan y Cyngor, yn cael eu gosod ar ran uchaf drysau'r gyrrwr a'r teithiwr blaen sy'n dangos bod y cerbyd wedi'i drwyddedu gan y Cyngor, drwy ddangos rhif trwydded y cerbyd hwnnw yn unol â ffurf gymeradwy'r Cyngor.

4. Bydd Tystysgrif a gyhoeddir gan y Cyngor sy'n nodi bod cerbyd wedi'i drwyddedu fel Cerbyd Hurio Preifat yn cael ei harddangos ar ochr chwith sgrin wynt cerbyd o'r fath yn y fath fodd fel y gellir ei weld yn hawdd o du blaen y cerbyd.

5. <u>Profi cerbydau</u>

5.1 Fel canllaw polisi, rhaid i gerbydau a gyflwynir i'w trwyddedu am y tro cyntaf fod yn llai na 5 mlwydd oed o'u dyddiad cofrestru cyntaf neu ddefnydd cyntaf/dyddiad gweithgynhyrchu os caiff y cerbyd ei fewnforio, ac eithrio cerbydau bws mini sydd â lifftiau cynffon awtomataidd parhaol a all fod hyd at 10 mlwydd oed ar gael eu trwyddedu'r tro cyntaf. Rhaid i geisiadau am gerbydau wedi'u haddasu y tu allan i gategori cymeradwyo Math o Gerbyd M1 gynnwys hanes gwasanaeth llawn ac ardystiad diogelwch priodol gan gynnwys Tystysgrif Cymeradwyo Cerbydau Unigol Gwirfoddol (IVA) a gyhoeddir gan yr Asiantaeth Safonau Gyrru a Cherbydau (DVSA).

5.2 Bydd cerbydau hyd at 10 oed o ddyddiad y cofrestriad cyntaf, neu'r defnydd cyntaf/dyddiad cynhyrchu os caiff y cerbyd ei fewnforio, yn cael eu profi ddwywaith y flwyddyn.

5.3 Bydd cerbydau sy'n 10 oed neu'n hŷn, o ddyddiad cofrestru cyntaf, neu'r defnydd cyntaf/dyddiad cynhyrchu os caiff y cerbyd ei fewnforio, yn cael eu profi deirgwaith y flwyddyn.

6. Ni fydd y perchennog yn arddangos nac yn gadael nac yn caniatáu i gerbyd Hurio Preifat gael ei arddangos ar unrhyw arwydd, hysbysiad, dyfais neu lifrai sy'n cynnwys y gair "Taxi" neu "Cab" boed yn yr unigol neu'r lluosog neu "Hire", neu unrhyw air o ystyr neu ymddangosiad tebyg i unrhyw un o'r geiriau hynny, boed ar ei pennau eu hunain neu fel rhan o air arall.

7. Ni fydd y perchennog yn arddangos nac yn gadael nac yn caniatáu i unrhyw hysbyseb gael ei harddangos yn y cerbyd nac ar y cerbyd heb gymeradwyaeth ysgrifenedig y Cyngor ymlaen llaw. At ddibenion yr amod hwn, ystyr "hysbyseb" yw unrhyw air, llythyr, arwydd, hysbysiad, goleuo, dyfais neu gynrychiolaeth yn ymddangos yn ei hanfod fel hysbyseb.

8. Ni fydd amodau 6 a 7 yn berthnasol i:-

a) arwydd neu hysbysiad a arddangosir ar neu o'r cerbyd a ragnodir gan neu o dan ddeddfiad;

b) Arwydd nad yw'n fwy na 4" o ran dyfnder wedi'i osod ar ffenestr flaen y cerbyd sy'n nodi enw'r perchennog neu'r gweithredwr, sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor.

9. Bydd y perchennog yn sicrhau y bydd y cerbyd yn cario diffoddwr tân powdr sych o leiaf 2.0 kg sy'n bodloni gofynion Safon Ewropeaidd BS EN3, y cyfryw ddiffoddwr i'w osod ar y cerbyd mewn safle sydd ar gael yn rhwydd i'w ddefnyddio a'i gynnal mewn cyflwr da bob amser.

10. Rhaid i drwyddedai unrhyw gerbyd sydd wedi'i drwyddedu dan bolisi arbennig y Cyngor ar gyfer cerbydau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn sicrhau bod y cerbyd yn hygyrch i gadeiriau olwyn bob amser ac i'r perwyl hwnnw yn cario rampiau ac ati sy'n angenrheidiol. Bydd uchafswm capasiti eistedd y cerbyd yn cael ei bennu yn y drwydded a rhaid iddo gynnwys darpariaeth ar gyfer o leiaf un gadair olwyn.

11. Rhaid bod modd agor cist gefn pob cerbyd math "car stad" sydd â mwy na phedair sedd o'r tu mewn a rhaid gosod arwyddion sy'n nodi "Allanfa Frys" a'r dull o agor y drws yn glir ar du mewn y drws.

12. Pan fo ffi'r drwydded yn cael ei thalu drwy siec sy'n cael ei gwrthod wedyn, bydd unrhyw drwydded yn cael ei dirymu o'r dyddiad y rhoddir gwybod i'r trwyddedai am ddirymiad o'r fath.

13. Ni fydd y perchennog yn achosi nac yn gadael nac yn caniatáu i nifer fwy o bobl heb gynnwys y gyrrwr i gael eu cludo yn y cerbyd na'r nifer y personau a bennir yn y Drwydded a ddarperir.

14. Bydd y drwydded yn parhau mewn grym am gyfnod o flwyddyn ac ni ellir ei throsglwyddo i unrhyw gerbyd arall oni bai bod cerbyd o'r fath wedi pasio prawf y Cyngor ar gyfer cerbydau hurio preifat.

15. Bydd y perchennog yn peri i rif y drwydded gael ei gosod a'i harddangos ar y cerbyd bob amser pan fo'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio fel Cerbyd Hurio Preifat, y rhif hwn i'w arddangos drwy gyfrwng disg drwydded a phlât trwydded a roddir gan y Cyngor i'r perchennog.

16. Bydd disg y drwydded yn cael ei gosod a'i harddangos y tu mewn i'r cerbyd yn y fath fodd a lleoliad fel bod y manylion ar gael yn glir ac yn weladwy i unrhyw deithiwr sy'n cael ei gludo yn y cerbyd.

17. Bydd disg y drwydded a phlât y drwydded yn parhau i fod yn eiddo i'r Cyngor a byddant yn cael eu dychwelyd iddo o fewn saith niwrnod ar ôl i berchennog dderbyn hysbysiad priodol gan y Cyngor nad yw bellach yn ddeiliad ar Drwydded Cerbydau Hurio Preifat gyda'r Cyngor sydd mewn grym o ran y cerbyd dan sylw.

18. Bydd y perchennog yn caniatáu i swyddog awdurdodedig gan y Cyngor neu swyddog heddlu i archwilio a phrofi cerbyd ar bob adeg resymol. Os nad yw'r swyddog yn fodlon ar ffitrwydd neu gyflwr y Cerbyd Hurio Preifat, bydd yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r

perchennog i sicrhau bod y cerbyd ar gael i'w archwilio a'i brofi ymhellach ar unrhyw adegau rhesymol ac yn y lleoliad a bennir yn yr hysbysiad, gyda'r drwydded gerbydau yn cael ei hatal hyd nes y bodlonir y swyddog; ar yr amod, os nad yw'r swyddog wedi'i fodloni i'r perwyl hwnnw cyn i gyfnod o ddau fis ddod i ben, y bydd y drwydded yn cael ei dirymu. Bydd y ddisg a'r plât ar ddirymu'r drwydded yn cael eu trosglwyddo i'r swyddog ond fe fyddant yn cael eu dychwelyd ar ôl i'r drwydded gael ei hadfer.

19. Os bydd trwydded cerbyd yn cael ei hatal, bydd disg a phlât y drwydded yn cael eu hildio i'r swyddog awdurdodedig neu swyddog yr heddlu, a byddant yn cael eu dal ganddo tra'n aros i'r cerbyd gael ei brofi.

20. Heb ragfarnu'r darpariaethau uchod, bydd y perchennog, ar ôl derbyn hysbysiad ysgrifenedig gan y Cyngor, yn cyflwyno'r Cerbyd Hurio Preifat i'w archwilio a'i brofi gan neu ar ran y Cyngor.

21. Bob amser, bydd y perchennog, tra bo'r drwydded yn gyfredol, o ran defnyddiwr y cerbydau fel Cerbyd Hurio Preifat, yn cadw polisi yswiriant mewn grym a gyhoeddir gan gwmni yswiriant cymeradwy ar sail trydydd parti o leiaf ac sy'n cydymffurfio â gofynion Rhan VI o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988.

22. Ar gais gan swyddog awdurdodedig, rhaid i'r perchennog gyflwyno Tystysgrif Yswiriant ar gyfer y cerbyd hwnnw a ddyroddir gan gwmni yswiriant cymeradwy i'r swyddog hwnnw i'w harchwilio at ddibenion Rhan VI o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988, ar yr amod, os yw'r perchennog yn methu â chyflwyno tystysgrif o'r fath i'r swyddog ar gais, y bydd y perchennog o fewn pum niwrnod i gais o'r fath yn ei gyflwyno i'r swyddog hwnnw neu i swyddog awdurdodedig yn Swyddfeydd y Cyngor, Pen-y-bont ar Ogwr.

23. Bydd unrhyw newid i ddyluniad y cerbyd, boed i'r peiriannau neu'r corff, yn cael ei adrodd i'r Cyngor a all ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog gyflwyno'r cerbyd i'w archwilio ymhellach.

24. Rhaid i'r perchennog hysbysu'r Cyngor o fewn 72 awr i unrhyw ddamwain i'r cerbyd lle mae difrod yn effeithio'n uniongyrchol ar ddiogelwch, perfformiad a golwg y cerbyd.

25. Os yw perchennog cerbyd hurio preifat y rhoddwyd trwydded cerbyd ar ei gyfer gan y Cyngor yn trosglwyddo ei fuddiant yn y cerbyd i berson heblaw'r perchennog y mae ei enw wedi'i bennu yn y drwydded, bydd o fewn 14 diwrnod wedi'r trosglwyddiad yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r Cyngor yn nodi enw a chyfeiriad y person y trosglwyddwyd y cerbyd hurio preifat iddo.

26. Yn achos Trwyddedeion/Perchenogion sy'n rhentu, prydlesu, llogi neu fenthyg eu cerbyd Llogi Preifat, bydd y Trwyddedai/Perchennog yn cadw a darparu cofrestr addas gan nodi arni'r manylion canlynol o ran manylion y gyrrwr y rhentwyd, llogwyd, prydleswyd neu fenthycwyd y cerbyd iddo.

   a) Enw a chyfeiriad y gyrrwr.
   b) Rhif y Bathodyn a dyddiad dod i ben y Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni / Hurio Preifat ar gyfer y gyrrwr.
   c) Rhif plât a rhif cofrestru'r cerbyd a rentwyd, llogwyd, benthycwyd neu a brydleswyd.
   ch) Dyddiad(au) ac amser(oedd) rhentu, llogi, prydlesu neu fenthyg y cerbyd gan y gyrrwr.

Rhaid cadw’r cofnodion am o leiaf 12 mis mewn trefn gronolegol a rhaid eu cyflwyno ar gais i swyddog awdurdodedig y Cyngor neu gwnstabl yr heddlu i’w harchwilio.

27. Rhaid i'r cerbyd fod wedi ei osod â phedair olwyn ffordd, o leiaf bedwar drws a bod yn gerbyd gyriant llaw dde.

28. Rhaid i'r cerbyd fod o faint eistedd digonol i gario o leiaf bedwar a dim mwy nag wyth teithiwr yn ogystal â'r gyrrwr. Bydd y capasiti eistedd, lle i’r pen a’r coesau fel a ganlyn:

(a) Uchder (Y tu mewn): Ni ddylai’r pellter o ben clustog y sedd i'r rhan isaf fod yn llai na 30 modfedd.

(b) Lle i’r Coesau: Ni ddylai’r pellter rhwng blaen y sedd gefn a chefn sedd y gyrrwr fod yn llai nag 8 modfedd pan fo sedd y gyrrwr mewn safle ar gyfer gyrrwr o daldra cyfartalog.

(c) Lled Seddi: Ni all lled y sedd gefn o’r clustog i'r ymyl blaen fod yn llai na 17 modfedd.

Nid yw amod (c) uchod yn berthnasol i seddi sy'n wynebu'r cefn mewn cerbydau a adeiladwyd yn bwrpasol a gymeradwywyd gan y Cyngor.

(ch) Sedd Gefn (Hyd): Rhaid i hyd y sedd gefn a fesurir mewn llinell syth dros y rhan fwyaf o'i hyd fod yn ddigon i ganiatáu seddau digonol a fydd yn neilltuo o leiaf 16 modfedd y pen.

29. Os yw'r cerbyd yn gar stad, rhaid ei ffitio â gril / ffitiad sy'n ddigonol i atal bagiau sy'n cael eu cario yn y gist gefn rhag dod i gysylltiad gyda phersonau yn y sedd gefn.

30. Eithriadau ar gyfer Cerbydau Arbenigol

Pan fydd cerbyd hurio preifat wedi'i drwyddedu a'i gymeradwyo fel cerbyd arbenigol, bydd eithriadau i'r amodau uchod yn berthnasol. Rhestrir yr eithriadau hyn ar y ddalen atodedig ac maent yn rhan o'r amodau trwydded hyn.

Eithriad 1

Dim ond cerbydau arbenigol cymeradwy all fod yn wyn eu lliw

Eithriad 2

Dim ond cerbydau arbenigol cymeradwy sydd wedi eu heithrio o'r gofyniad i arddangos plât trwydded bob amser. Mae'r holl amodau eraill sy'n gofyn am arddangos disgiau trwydded yn parhau.

Eithriad 3

Dim ond cerbydau arbenigol cymeradwy all fod â gyriant llaw chwith.

Dyddiad: Chwefror 2023